

Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru

Ceir disgrifiad o'r rhaglen ar wahân yn y ddogfen "Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru – trosolwg".

Rôl yr Hyfforddwyr

Bydd y tîm hyfforddi ar gyfer y Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn cynnwys dau hyfforddwr fesul rhaglen, wedi'u hategu gan siaradwyr gwadd ym mhob modiwl.

Mae'r rhaglen yn un o reoli cyd-destunol a datblygu arweinyddiaeth. Fe'i hategir gan egwyddorion ymarfer myfyriol a dysgu gweithredol. Mae'n ceisio sicrhau bod cyfranogwyr yn ymgysylltu â'r meddylfryd gorau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth ac yn ei archwilio ac yn gallu cymhwysu'r meddylfryd hwn i'w harfer dyddiol fel arweinwyr gwaith ieuencid yng Nghymru.

Mae'r hyfforddwyr yn gyfrifol am:

- Paratoi eu hunain cyn y rhaglen fel eu bod yn gwbl gyfarwydd â chynnwys y rhaglen, yr ymarferion hyfforddi a'r tasgau i gyfoethogi a chymhwysu dysgu
- Cyflwyno modiwlau'r rhaglen mewn modd cyfranogol iawn, ymateb i anghenion unigol a chyfunol y cyfranogwyr ac addasu'r rhaglen yn ôl y gofyn i wneud iddi weithio'n dda. Disgwylir i'r hyfforddwyr ychwanegu gwerth at y rhaglen drwy ddefnyddio eu harbenigedd a'u profiad eu hunain.
- Cyfarfod mor aml ag y bo angen er mwyn gallu gweithio'n effeithiol fel tîm hyfforddi
- Rhannu mewbynnau a hwyluso'r rhaglen yn deg rhyngddynt
- Cysylltu â'r sefydliad lletyol am fanylion ymarferol er mwyn bod yn hyderus bod yr holl ddeunyddiau i redeg y rhaglen yn barod ac ar gael ar gyfer pob modiwl
- Sicrhau eu bod yn gwybod pwy yw'r cyfranogwyr ac wedi darllen unrhyw ddeunydd cyn y cwrs amdanynt (e.e. copiâu o hunanasesiad cyn y cwrs)
- Cyrraedd mewn da bryd yn y lleoliad i sicrhau bod yr ystafelloedd yn cael eu paratoi'n briodol. Fel arfer, byddai disgwyl i'r hyfforddwyr aros dros nos ger y lleoliad oni bai eu bod yn teithio pellter byr iddo. Byddai hyn yn cael ei ariannu fel rhan o'r rhaglen.
- Bod yn bresennol ac yn barod i groesawu cyfranogwyr wrth iddynt gyrraedd.
- Adrodd yn ôl i'r sefydliad lletyol am unrhyw broblemau neu anawsterau wrth weinyddu pob modiwl.
- Sicrhau bod ffurflenni gwerthuso yn cael eu llenwi ar gyfer pob modiwl a'u dychwelyd i'r sefydliad lletyol.
- Cysylltu â'i gilydd rhwng modiwlau i adolygu'r modiwl blaenorol, paratoi'r modiwl nesaf a gwneud unrhyw newidiadau yn seiliedig ar gynnydd y cyfranogwyr. Cysylltu â'r sefydliad lletyol i adolygu a dysgu o adborth o bob modiwl a'r rhaglen gyfan.

Manyleb y person

Rhaid i'r tîm hyfforddi rhyngddynt gael:

1. Profiad fel uwch reolwyr o ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys arwain newid sefydliadol yn llwyddiannus. Rhaid iddynt fod yn gredadwy fel hwyluswyr, hyfforddwyr a mentoriaid i'r cyfranogwyr.
2. Gwybodaeth am y cyd-destun strategol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Rhaid i'r ddau hyfforddwr allu cymhwyso meddylfryd o arweinyddiaeth a rheolaeth i gyd-destun penodol gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae hyn yn gofyn am ddeall y cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol a natur a phwrpas gwaith ieuenctid.
3. Gwybodaeth hyderus a chyfredol am arweinyddiaeth a rheolaeth a'i gymhwyso i sefydliadau. Dylai hyn fod ar lefel MBA /Meistr. Rhaid i'r tîm hyfforddi allu cyflwyno theori fel y bo'n briodol, ei chymhwyso i arweinyddiaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru, ei harchwilio a'i beirniadu.
4. Sgiliau hyfforddi a hwyluso rhagorol. Mae hyn yn cynnwys sgiliau cyflwyno a chyfathrebu cryf sy'n gysylltiedig â'r gallu i hwyluso dysgu drwy brofiad. Rhaid i'r hyfforddwyr fod yn gyfforddus ag ansicrwydd a bod yn barod i ddilyn diddordebau ac anghenion y cyfranogwyr, yn hytrach na glynu'n gaeth at y rhaglen. Rhaid iddynt fod yn hyfforddwyr gweithgar a chreadigol – yn barod i fentro ac arbrofi. Fodd bynnag, rhaid iddynt hefyd allu sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni ei hamcanion dysgu cyffredinol.
5. Sgiliau TGCh sy'n ddigonol i reoli'r ddarpariaeth o ddeunyddiau ar-lein drwy lwyfan dysgu ar-lein
6. Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg (dymunol ond nid hanfodol).